

# Deall arolygiadau mewn ysgolion: Canllaw ar gyfer rhieni a gofalwyr

Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu ystod eang o ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru, a bydd yn arolygu ysgol eich plentyn cyn bo hir.

## Sut mae arolygwyr yn ystyried fy marn am yr ysgol?

Mae Estyn eisiau gwybod eich barn am yr ysgol. Gallwch wneud hyn trwy:

- **lenwi holiadur ar-lein** trwy ddilyn y ddolen uniongyrchol a roddwyd i chi gan yr ysgol neu trwy fynd i <http://vir.estyn.gov.uk>, clicio ar 'llenwi holiadur i rieni' a theipio **06738**
- **mynychu cyfarfod ag arolygwyr.** Bydd yr ysgol yn rhoi dyddiad ac amser y cyfarfod i chi.

Os cewch unrhyw drafferthion wrth fynd at yr holiadur neu ei lenwi, gallwch ofyn i'ch ysgol neu Estyn am gopi caled. Dylid dychwelyd y rhain i Estyn naill ai gan ddefnyddio'r dull rhadbost neu 'Yn Gyfrinachol' trwy eich ysgol erbyn **05/02/2016** fan bellaf. Gweler 'Sut gallaf i gysylltu ag Estyn?'

## Sut bydd arolygiad o fudd i'm plentyn?

Mae arolygiad yn dweud wrthyfych am y safonau a'r ansawdd yn ysgol eich plentyn. Mae'n rhoi barn arbenigol i'r ysgol ar ei gwaith, gan amlinellu'r hyn y mae'n ei wneud yn dda a'i helpu i wella.

## Pwy sy'n arolygu'r ysgol?

Caiff y tîm arolygu ei arwain gan Arolygydd Cofnodol sydd â phrofiad sylweddol o addysgu ac addysg. Mae pob tîm arolygu yn cynnwys arolygydd lleug ac arolygydd cymheiriaid hefyd. Nid yw arolygwyr lleug wedi gweithio fel athrawon mewn ysgol, tra bod arolygwyr cymheiriaid yn athrawon neu'n rheolwyr presennol o ysgol arall. Caiff pob ysgol enwebu rhywun i gysylltu'n uniongyrchol â'r tîm arolygu i roi gwybod i'r arolygwyr am yr ysgol a'i gwaith.

## Sut bydd yr ysgol yn cael ei harolygu?

Mae arolygwyr yn dilyn arweiniad arolygu Estyn ac yn defnyddio data hunanarfarnu a pherfformiad yr ysgol fel eu man cychwyn.

## Sut bydd arolygwyr yn ystyried barn fy mhentyn am yr ysgol?

Yn ystod yr arolygiad, bydd arolygwyr yn gofyn i grwpiau o blant sut maent yn teimlo am yr ysgol, eu gwaith a pha mor dda y maent yn dod yn eu blaenau. Bydd sampl o ddysgwyr yn llenwi holiadur ar-lein cyn yr arolygiad.

## Sut byddaf yn gwybod barn yr arolygwyr am yr ysgol?

Caiff adroddiadau arolygu eu cyhoeddi ar wefan Estyn 45 diwrnod gwaith ar ôl dechrau'r arolygiad. Bydd y corff llywodraethol yn anfon manylion am yr adroddiad atoch hefyd.

## Beth fydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad?

Bydd yr adroddiad yn cynnwys barnau cyffredinol am:

- berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella
- y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion a'u lles
- profiadau dysgu, addysgu, gofal, cymorth ac arweiniad, a'r amgylchedd dysgu
- arweinyddiaeth, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau

Mae arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt wrth lunio'r barnau hyn:

**Rhagorol:** llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector

**Da:** llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol

**Digonol:** mae cryfderau'n gorbwysu meysydd i'w gwella

**Anfoddhaol:** mae meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu cryfderau

## Beth sy'n digwydd ar ôl arolygiad?

Rhaid i bob ysgol greu cynllun gweithredu yn seiliedig ar yr argymhellion yn yr adroddiad arolygu. Bydd y tîm arolygu hefyd yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar yr ysgol. Mae'r pum math o weithgarwch yn cynnwys:

**Arfer ragorol:** bydd Estyn yn gwahodd ysgolion i gyflwyno astudiaeth achos

**Monitro gan yr awdurdod lleol:** bydd yr awdurdod perthnasol yn cyflwyno adroddiad i Estyn

**Monitro gan Estyn:** bydd cynnydd yr ysgol o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a amlygir yn yr adroddiad yn cael ei adolygu tua blwyddyn i 18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu

**Gwelliant sylweddol:** bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r ysgol tua blwyddyn i 18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu

**Mesurau arbennig:** bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r ysgol bob tymor ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu.

## Sut gallaf i gysylltu ag Estyn?

**Cyfeiriad:** Rhadbost ESTYN

**E-bost:** [ic@estyn.llyw.cymru](mailto:ic@estyn.llyw.cymru)

**Ffôn:** 02920 446446

**Adborth am arolygiadau:**

[adborth@estyn.llyw.cymru](mailto:adborth@estyn.llyw.cymru)

